Comisiwn y Senedd: Diben

Mae Comisiwn y Senedd yn gwasanaethu'r Senedd er mwyn helpu i sicrhau ei llwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd, cryf, hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Blaenoriaethau strategol

Cefnogi'r Aelodau a democratiaeth seneddol
Darparu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd eu hangen ar yr Aelodau a'r Senedd i weithredu'n effeithiol ac i gyflawni eu cyfrifoldebau democrataidd.

Cysylltu pobl â'u Senedd
Cryfhau dealltwriaeth o'r Senedd a galluogi pobl ledled Cymru i ymgysylltu'n ystyrlon â'i gwaith a chael hyder yn y sefydliad.

Sicrhau bod y sefydliad yn wydn a chynaliadwy
Darparu stiwardiaeth gyfrifol o adnoddau cyhoeddus a chryfhau'r gwydnwch, y diogelwch a'r gallu sefydliadol ar gyfer yr hirdymor.

Canlyniad cyflawni mawr

Cyflawni'n llwyddiannus brosiect Bae 32 a phenderfyniadau o ran adeiladau sy'n gysylltiedig ag ef, gyda llywodraethu ac ystyriaeth glir o fforddiadwyedd, rheolaeth risg a gwerth i'r cyhoedd.

Gwasanaethau allweddol a themâu cyflawni

- Busnes seneddol a chymorth gweithdrefnol
- Gwasanaethau a chymorth i'r Aelodau
- Cymorth digidol, cymorth o ran gwybodaeth a chymorth gweithredol ar gyfer gwaith seneddol
- Galluogi cyfranogiad democrataidd diogel a pharchus
- Dealltwriaeth gyhoeddus, ymddiriedaeth a chywirdeb gwybodaeth
- Cyfranogiad ac ymgysylltiad ledled Cymru
- Cydraddoldeb, hygyrchedd a chynhwysiant
- Llesiant a chyfranogiad sy'n gyfeillgar i deuluoedd
- Stiwardiaeth gynaliadwy o adnoddau cyhoeddus
- Llywodraethiant a sicrwydd cadarn
- Diogelwch (ffisegol a seiber) a pharhad busnes
- Gwydnwch o ran pobl, sgiliau a gwydnwch sefydliadol

Ffyrdd o weithio:

Yr Aelodau yn gyntaf • Canolbwyntio ar y dinesydd • Gwerth am arian cyhoeddus
Cynhwysol a dwyieithog o ran dyluniad • Meddwl hirdymor

- **Yr Aelodau yn gyntaf:** rhoi gallu'r Aelodau i gyflawni eu rolau seneddol, ac anghenion hirdymor y sefydliad sy'n eu cefnogi, wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau.
- **Canolbwyntio ar y dinesydd:** gwrando ar ddinasyddion a chymunedau ledled Cymru, cryfhau dealltwriaeth y cyhoedd o rôl y Senedd, a dangos sut mae ymgysylltu yn dylanwadu ar waith y Comisiwn.
- **Gwerth am arian cyhoeddus:** cydbwyso uchelgais â fforddiadwyedd, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd a thystiolaeth glir bod adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio'n gyfrifol.
- **Cynhwysol a dwyieithog o ran dyluniad:** cymryd camau pellach i gorffori cydraddoldeb, hygyrchedd, urddas a pharch, ac ystyriaethau o weithio'n ddwyieithog mewn cynigion o'r cychwyn cyntaf, yn hytrach na'u trin fel profion ar wahân ar y diwedd.
- **Meddwl hirdymor:** mabwysiadu ymagwedd cydlynol o ran newid sefydliadol fel bod penderfyniadau tymor byr yn cefnogi sefydliad gwydn ar gyfer y dyfodol.